

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	19 Mehefin 2018
Pwnc:	Enwebiad i'r Panel Sgriwtini Cyllid a'r Bwrdd Trawsnewid Addysg
Pwrpas yr Adroddiad:	Enwebu un Aelod o'r Pwyllgor hwn
Cadeirydd Sgriwtini:	Y Cyngorydd Gwilym O Jones
Aelod(au) Portfolio:	--
Pennaeth Gwasanaeth:	--
Awdur yr Adroddiad:	Geraint Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Rhif Ffôn:	01248 752039
E-bost:	GeraintRoberts@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Dim yn benodol i unrhyw ward

1 – Argymhelliad/Argymhellion

- 1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu un Aelod o'r Pwyllgor i gymryd lle'r Cyngorydd Robin Williams ar y:
1. Panel Sgriwtini Cyllid
 2. Bwrdd Trawsnewid Addysg

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Amherthnasol

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**
- 3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
- 3.4 Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
- 3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - Hirdymor
 - Atal
 - Integreiddio
 - Cydweithio
 - Cynnwys**[ffocws ar lesiant]**

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Amherthnasol

5 – Cefndir / Cyd-destun

5.1 Ar 27 Mehefin 2017, derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio adroddiad yn gofyn am enwebiadau i amryfal Banelau a Byrddau. Enwebwyd y Cynghorydd Robin Williams gan y Pwyllgor i fod yn Aelod o:

1. Y Panel Sgriwtini Cyllid (y Panel)
2. Y Bwrdd Trawsnewid Addysg (y Bwrdd)

5.2 Yn y Cyfarfod Blynnyddol o Gyngor Sir Ynys Môn (15 Mai 2018), penodwyd y Cynghorydd Robin Williams gan yr Arweinydd fel yr Aelod Portffolio newydd ar gyfer Cyllid. Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, ni fedr Aelod o'r Pwyllgor Gwaith fod yn Aelod hefyd o Bwyllgor Sgriwtini. O ganlyniad, bydd angen i'r Pwyllgor enwebu Aelod newydd i gymryd lle'r Cynghorydd Robin Williams ar y Panel a'r Bwrdd.

5.3 Ceir manylion am rôl y Panel a'r Bwrdd yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol

7 – Goblygiadau Ariannol

Amherthnasol

8 – Atodiadau

1. Cylch Gorchwyl y Panel Sgriwtini Cyllid
2. Cylch Gorchwyl Bwrdd Trawsnewid Addysg

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

ATODIAD 1

PANEL SGRIWTINI – CYLLID

Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

“... Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol...”¹

“Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?” yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a “sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?” Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Ein Trefniadau Lleol

¹ Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatáu dilyn trywydd mwy systematig o ran sgrwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan banel sgrwtini ar wireddu arbedion effeithlonrwydd 2014/15 a 2015/16 hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grŵp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Mae ein gwaith craffu ariannol bellach yn dechrau amlygu fel model posibl o arfer da.

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp cyllid fel is-banel i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol.

Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel

Pwnc	Rhaglen Waith	Amserlen
Amwytho	Amwytho aelodau'r Panel	Mehefin
Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf	Craffu gwariant yn erbyn proffil cyllidebau	Chwarterol
	Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol	Mehefin

Pwnc	Rhaglen Waith	Amserlen
Cyllideb y flwyddyn i ddod	Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio	Haf
	Trosolwg o sefyllfa'r arbedion	Yr Hydref
	Craffu risgiau'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig	
	Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion	
	Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol	
Cynllun Cyllidol Tymor Canol	Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau	Haf
Rheoli Dyledion	Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu)	I'w gadarnhau (dibynnol ar argaeledd gwybodaeth wedi'i pharatoi'n rhanbarthol)
Polisi Rhyddhad Treth Busnes	Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau	I'w gadarnhau (darn o waith mewn un cyfarfod yn unig)
Cynllun Busnes HRA	Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau	Ionawr
Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn	Cwestiynu a chraffu	Amserlen i'w chadarnhau gan y Panel

Aelodaeth y Panel

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini

- **Swyddogion** – Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Gwasaneth Refeniw a Budd-daliadau, Rheolwr Sgriwtini

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

Cadeirio

Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

Amllder Cyfarfodydd a Chworwm

- **Amllder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor (rhagwelir oddeutu 6-8 cyfarfod/ blwyddyn)
- **Cworwm** – ni fydd yn berthnasol i'r panel.

Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod
- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

ATODIAD 2

Bwrdd Trawsnewid Addysg Cylch Gorchwyl

Pwrpas y ddogfen hon yw gosod cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Trawsnewid Addysg. Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu:

1. **Y Llywodraethiant**
2. **Nodau'r Bwrdd Trawsnewid Addysg**
3. **Pwrpas a Rôl y Bwrdd Trawsnewid Addysg**
4. **Aelodaeth y Bwrdd Trawsnewid Addysg**
5. **Gwneud penderfyniadau**
6. **Cyfarfodydd**
7. **Materion Brys / Problemau**
8. **Strwythur adrodd**
9. **Mabwysiadu ac Adolygu'r Cylch Gorchwyl**

1. Llywodraethiant

Bydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg (BTA) yn atebol i'r Bwrdd Rhaglen Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaeth – mae'r strwythur llywodraethu hwn yn sicrhau bod y BTA a'i Brosiectau Moderneiddio Ysgolion yn gallu arddangos cyflwyno'n fuan i'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth. Bydd y Grŵp rheoli Asedau Corfforaethol yn rhoi trosolwg i'r BTA i sicrhau dull cyson tuag at reoli asedau'r Awdurdod. Bydd y BTA yn mabwysiadu egwyddorion rheoli prosiect corfforaethol, gweithio i gynllun prosiect cytunedig ac adrodd ar gynnydd. Bydd ar bob Prosiect a'u hachosion busnes angen cymeradwyaeth y BTA.

2. Nodau'r Bwrdd Trawsnewid Addysg

- Gyrru'r agenda trawsnewid corfforaethol i gyflwyno deilliannau a buddion y rhaglen moderneiddio ysgolion.
- Cyfarwyddo ac adolygu prosiectau er mwyn sicrhau gweithredu llwyddiannus.
- Gweithredu fel Byrddau Prosiect unigol a gweithredu llywodraethiant lefel prosiect fel y bo'n ofynnol.
- Sicrhau ymrwymiad i ddechrau camau nesaf y prosiectau gan y Bwrdd Rhaglen Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaeth
- Sicrhau ymrwymiad i wella safonau ysgolion

3. Pwrpas a Rôl y Bwrdd Trawsnewid Addysg

- Arwyddo'r Ddogfennaeth Cychwyn Prosiect
- Derbyn adroddiadau gan y Rheolwr Rhaglen ar gynnydd, risgiau a'r achosion busnes
- Anfon adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth ar yr achosion busnes, y broses ymgynghori a'r gwerthusiadau opsiynau sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen a'r prosiectau moderneiddio ysgolion
- Sicrhau bod Cynllun Cyfathrebu'r Moderneiddio Ysgolion (a ddatblygwyd yn unol â'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol) yn bwydo i mewn i'r 'Strategaeth Cyfryngau Corfforaethol' (gyda phob cyfathrebu allanol i'r wasg yn cael ei gymeradwyo gan yr Uwch-Dîm Arweinyddiaeth /Pwyllgor Gwaith)
- Sicrhau bod y tîm prosiect yn arwain cyfathrebu amserol ac effeithiol gyda phob rhanddeiliaid perthnasol
- Cyfarwyddo a herio'r adran addysg a'r tîm prosiect mewn perthynas â gwella safonau ysgolion a chynyddu capasiti arweinyddiaeth ar draws y sector cynradd ac uwchradd.
- Monitro effaith y rhaglen moderneiddio ysgolion ar safonau ysgolion
- Goruchwylio camau gweithredu swyddogion addysg wrth iddynt ymateb i'r angen i gynyddu capasiti arweinyddiaeth yn ysgolion Ynys Môn
- Darparu cefnogaeth a her i hyd oes y prosiectau.
- Cynorthwyo gyda phob datrysiad gwneud penderfyniadau
- Sicrhau bod yr adnoddau sy'n ofynnol ar gael i gyflwyno'r prosiect.
- amlygu problemau a risgiau i'r tîm prosiect ymateb iddynt.
- goruchwylio a monitro cerrig milltir allweddol o fewn y cynllun prosiect
- sicrhau bod adnoddau priodol a glustnodir i'r prosiectau yn cael eu monitro mewn perthynas â gwariant yn erbyn y gyllideb
- monitro cynnydd prosiectau moderneiddio ysgolion ac awdurdodi llithriad
- adolygu risgiau, problemau ac eithriadau a phennu dull gweithredu priodol yn seiliedig ar argymhellion gan y Rheolwr Prosiect
- arwyddo camau/cau prosiectau
- cyfarwyddo a herio'r tîm prosiect mewn perthynas â chynllunio strategol pellach, gan roi ystyriaeth ddisgwyliedig i newidiadau demograffaid

- cyfarwyddo a goruchwyllo'r broses o reoli prosiect y cam gweithredu

4. Aelodaeth y Bwrdd Trawsnewid Addysg

Bydd aelodaeth Rhaglen y Bwrdd Trawsnewid Addysg fel a ganlyn. Bydd yn rhaid i Ddirprwyon gael eu hawdurdodi gan y Cadeirydd.

Aelod o'r Bwrdd – Uwch-Swyddog Cyfrifol (Pennaeth Gwasanaeth) - CADEIRYDD

Aelod o'r Bwrdd- Prif Weithredwr/ Prif Weithredwr Cynorthwyol

Aelod o'r Bwrdd – Penaethiaid Gwasanaeth (Eiddo, Gwasanaethau Plant, Trawsnewid)

Aelod o'r Bwrdd – Deilydd Portffolio Addysg

Aelod o'r Bwrdd – Aelod Portffolio Cysgodol

Aelod o'r Bwrdd – Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Aelod o'r Bwrdd- Swyddog Adran 151

Gwahoddedig – Rheolwr Strategaeth Moderneiddio Ysgolion

Gwahoddedig – Pensaer yr Awdurdod Lleol

Gwahoddedig – cynrychiolydd y Bwrdd Rhaglen Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau

Gwahoddedig – Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Ysgolion

Gwahoddedig – Cadeirydd y Grŵp Strategol Cynradd

Gwahoddedig – Cadeirydd y Grŵp Strategol Uwchradd

Gwahoddedig – Rheolwr Moderneiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru

Gwahoddedig – Swyddogion Addysg

Gwahoddedig – Arweinydd y Cyngor

5. Gwneud Penderfyniadau

Wrth ymarfer eu cylch gorchwyl, gall y Bwrdd Trawsnewid Addysg wneud argymhellion a fydd hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith neu gytundeb yr UDA.

Cynyddir argymhellion o'r fath i'r Pwyllgor Gwaith /UDA, drwy'r Bwrdd Rhaglen Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Yn gyffredinol, bydd penderfyniadau o fewn y gyllideb ac o fewn y fframwaith polisi yn disgyn o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith, ac ymdrinnir â materion ynghylch staff/rheolwyr gan yr UDA.

Adolygir y trefniadau hyn mewn 12 mis i benderfynu a ddylid penderfyniadau o'r fath gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith / cynrychiolwyr UDA y Bwrdd.

6. Cyfarfodydd

- Bydd y Bwrdd Trawsnewid Addysg yn cyfarfod yn chwarterol fel y bo'n briodol. Bydd cworwm yn y cyfarfodydd lle bydd 5 aelod yn bresennol. Ar achlysuron pa na ellir yr UDA fynychu, bydd y bwrdd yn cyfeirio penderfyniadau lefel-uwch i'r UDA os ystyrir yn gam priodol gan y bwrdd
- Bydd pob cyfarfod yn cael eu harwain gan agenda, a bydd aelodau'n cael y cyfle i gynnig eitemau ar gyfer yr agenda cyn y cyfarfod.
- Bydd pob cyfarfod yn cofnodi pwyntiau trafod allweddol, penderfyniadau, argymhellion, a gweithrediadau a gytunwyd.

- Gall cyfarfodydd arbennig o'r BTA gael eu trefnu hefyd pan fo penderfyniadau allweddol yn ofynnol i yrru'r rhaglen / prosiectau ymlaen.

7. Materion / Problemau Brys

Pe digwyddai materion godi, a fyddai angen sylw neu gymeradwyaeth brys – bydd y Rheolwr Rhaglen yn codi 'mater' drwy anfon e-bost at bob Aelod Bwrdd, a fydd yn cynnwys y manylion a ganlyn:

- natur y busnes
- y cyfyngiadau amser
- y canlyniad os nad eir i'r afael ag ef o fewn y cyfyngiadau amser.
- canlyniad tebygol ar gyllideb prosiect
- y gweithredu lliniaru arfaethedig i'r Bwrdd ei ystyried
- y dyddiad y mae'n ofynnol i aelodau'r BTA ymateb .

Rhoddir sylw i'r ymatebion gan y Cadeirydd /USC a rhoddir gwybod i aelodau'r BTA am yr argymhellion neu'r ffordd ymlaen arfaethedig.

8. Strwythur adrodd

Bydd pob dogfennaeth i'w thrafod a'i herio yn y cyfarfod yn cael ei dosbarthu i'r aelodau wythnos ymlaen llaw. Bydd y ddogfennaeth yn cynnwys:

- Adroddiad amlygu unigol ar gyfer pob prosiect
- Cofrestr risgiau / problemau ar gyfer y rhaglen gyffredinol
- Argymhellion/cynlluniau gweithredu Arolwg Gateway
- Taenlen rheoli adnoddau i egluro bod yr adnoddau gofynnol yn eu lle i gefnogi'r rhaglen
- Achosion Busnes
- Papurau Cynllunio strategol, fel y bo'n briodol

9. Mabwysiadu ac Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Mabwysiadwyd y Cylch Gorchwyl yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd Trawsnewid Addysg, a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.